

GR P ECOSYSTEMAU UCHELDIROEDD PBC

CAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD – 24 Mehefin 2010

Swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Y Drenewydd

Yn bresennol

Barbara Jones (CCGC & Cadeirydd), Steve Chambers (Llywodraeth Cynulliad Cymru), Joe Daggett (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Gareth Ellis (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog), Rhys Evans (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Clive Faulkner (Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn), Dave Lamacraft (RSPB), Jim Latham (CCGC), Bev Lewis (Ymddiriedolaeth Natur Brycheiniog), Mark Malins (Comisiwn Coedwigaeth), Charles Morgan (PONT), Dafydd Roberts (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Jan Sherry (CCGC), Reg Thorpe (RSPB), Sian Whitehead (CCCG)

Ymddiheuriadau

Helen Buckingham (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Mike Jenkins (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru), Chris Tucker (Comisiwn Coedwigaeth Cymru), Simon Thorpe (Heather Trust)

Trefnwyd y cyfarfod hwn yn bennaf er mwyn trafod blaenoriaethu gwarchod bioamrywiaeth yn ucheldir Cymru, ond trafodwyd ychydig o faterion cyn hynny:-

1) **Fframwaith Amgylchedd Naturiol Cymru** – pwysleisiwyd bod angen i'r grwpiau ecosystemau gadw i fyny â'r datblygiadau diweddaraf a gwneud sylwadau ynglŷn â'r adroddiadau. JS i goladu sylwadau gan aelodau o'r grŵp yn absenoldeb BJ.

2) **Cynlluniau gweithredu newydd ar gyfer cynefinoedd ucheldir y Deyrnas Unedig** – mae tri chynllun gweithredu ar gyfer cynefinoedd wedi cael eu llunio ar gyfer cynefinoedd cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth newydd yr ucheldir:- Gwaun mynydd a phrysgwydd helyg, Creigiau mewndirol a chynefinoedd sgri a Llaciau, ffeniau a chorsydd ucheldir. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi cefndir y cynefinoedd hyn, eu statws a'u dosbarthiad yn y Deyrnas Unedig, cymunedau cydrannol Atodiad 1 a'r NVC, ffactorau presennol sy'n effeithio ar eu cyflwr, cysylltiadau â chynlluniau gweithredu a rhywogaethau eraill ac yn olaf, amcanion cyffredinol y Deyrnas Unedig ar gyfer y cynefinoedd hyn. Mae angen troi'r amcanion hyn yn gynlluniau gweithredu ar gyfer Cymru a bydd grŵp Ecosystemau'r Ucheldiroedd yn dechrau ar y broses hon yn y misoedd nesaf.

3) Cafwyd trafodaeth fer ar lunio canllawiau technegol **Glastir** ar gyfer ymgeiswyr a'r angen i'r grŵp gyfrannu tuag at hyn.

4) Gofynnwyd i'r grŵp am gyfraniadau i'r rhifyn nesaf o gylchlythyr yr ucheldir, '**Looking to the Hills**', sy'n cael ei gynhyrchu gan UK Upland Lead Network.

5) **Blaenoriaethu camau gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth yn ucheldir Cymru.**

Nod yr eitem bwysig hon ar yr eitem oedd dechrau darparu darlun strategol clir o'n hadnodd bioamrywiaeth a nodau ar gyfer y dyfodol ar raddfa leol, ranbarthol a chenedlaethol a chydlynu gwybodaeth fel bod modd nodi blaenoriaethau clir ar gyfer gwahanol agweddau ar fioamrywiaeth mewn gwahanol leoedd. Nod y cyfarfod oedd dechrau'r broses o amlinellu ble a beth yw'r prif gynefinoedd a rhywogaethau yn yr ucheldir y dylem fod yn canolbwyntio arnynt yn y blynyddoedd nesaf. Beth yw'r prif flaenoriaethau o ran rheoli cadwraeth yn ucheldir Cymru? Pa brosiectau neu faterion seiliedig ar safle sydd eu hangen ar frys er mwyn gwella cyflwr cynefinoedd yn ucheldir Cymru. Gallai hyn olygu cysoni gofynion a allai fod yn wrthgyferbyniol.

Dylai hyn ddechrau darparu rhestr blaenoriaethau i Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, cyrff anllwydraethol a chyrrff statudol ar gyfer camau gweithredu yn yr ucheldir a helpu i ganolbwyntio adnoddau ar y gofynion sydd â'r brys mwyaf. Bydd hefyd yn helpu i weithredu'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol a allai fod yn sail i lawer o'n gwaith bioamrywiaeth yn y dyfodol.

Nododd pob aelod o'r grŵp yn fyr iawn beth oedd ei brif flaenoriaethau ac roedd y rhain yn amrywio o brosiectau clir iawn yn seiliedig ar safleoedd i faterion mwy cyffredinol a oedd yn ceisio mynd i'r afael â phroblemau cyffredinol i fioamrywiaeth yn ucheldir Cymru. O hyn, nodwyd rhai materion cyffredin gan gynnwys adfer gorgors ar safleoedd penodol, cysylltu rheolaeth er mwyn atal dirywiad adar sydd dan fygythiad ag adfer gorgors, diogelu glaswelltir a rhostir mynydd ar frys, diogelu ac ehangu coetir yn yr ucheldir a mynd i'r afael â mater rheoli tir comin ar gyfer bioamrywiaeth.

Gan ddefnyddio profiad aelodau'r grŵp, nodwyd y 10 mater/prosiect a oedd â'r brys mwyaf. Cafwyd trafodaeth fer ynglŷn ag a ddylai safle cyfan gael ei enwi fel canolbwynt ar gyfer rheolaeth. Dadleuwyd bod y dull gweithredu hwn yn bwysig gan y byddai'n dilyn y dull graddfa tirwedd/dalgylch sy'n bwysig mewn cadwraeth ac yn cysylltu â'r dull gwasanaethau ecosystemau. Fodd bynnag, daethpwyd i'r casgliad, yn yr achos hwn, pe bai'r dull hwn yn cael ei ddilyn, yna byddai enwi 10 safle pwysig ar yr ucheldir i bob pwrpas ddim ond yn enwi'r safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig mawr ar yr ucheldir yng Nghymru, ac na fyddem yn nes o gwbl at nodi prosiectau/materion pwysig. Dadleuwyd bod arnom angen dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y posibilrwydd o fygwth/colli cynefinoedd a rhywogaethau ac ar brosiectau mewn safleoedd i weithredu fel 'hadau' i ddangos bod problemau a dangos i dirfeddianwyr cyfagos bod modd gwneud rhywbeth a beth y gellir ei wneud. Mae camau'n fwy tebygol o gael eu cymryd hefyd os yw'r prosiectau hyn cael eu diffinio'n gliriach (yn enwedig ar adeg pan fo adnoddau'n brin iawn) ac os bydd manteision i fioamrywiaeth i'w gweld drwy brosiectau o'r fath, yna mae rhagor o gamau hefyd yn fwy tebygol.

Nid yw nodi'r materion hyn lle mae'r brys mwyaf yn golygu nad oes angen i ni roi cymaint o sylw i flaenoriaethau eraill yn yr ucheldir. Mae llawer iawn o waith y mae angen ei wneud er budd bioamrywiaeth yn ucheldir Cymru a dim ond megis dechrau yw hyn. Pan fydd un o'r rhain yn cael ei wneud, mae llawer mwy yn aros i gymryd ei le ar y rhestr.

Y 10 prosiect â'r brys mwyaf oedd:-

- 'Achub'/adfer y cynefin mynydd sydd wedi'i ddifrodi fwyaf yn Eryri (BJ)
- Rheoli adfer dau safle cwtiad aur yn ardal Elenydd, integreiddio rheolaeth ar gyfer y rhywogaeth hon â mesurau ehangach ar gyfer adfer gorgors ar y safle. (RT & JD)
- Adfer gorgors sydd wedi dirywio ar y Mynydd Du. (GE)
- Adfer ac ehangu coetiroedd ochr dyffryn yn Nant Gwynant yn Eryri. (RE)
- Rheolaeth ar gyfer y gylfinir yn ardal Hiraethog. (DL)
- Dileu/cyfyngu ar Rhododendron yn Eryri. (DR & JS)
- Rheolaeth ar gyfer llinos y mynydd ar yr unig safle lle mae i'w chael yng Nghymru. (DL) (GYDA GRŵP YR ISELDIR NAWR)
- Rheolaeth calchbalmant yn Ogof Ffynnon Ddu (GE)
- Clirio geifr o Gwm Idwal yn barhaol. (RE)
- Clirio conwydd sy'n ymledu ar y Berwyn (RT mewn ymgynghoriad ag Arfon Hughes ac MM?)

Trafodwyd rhestr ail haen a oedd yn cynnwys materion fel parhau â phrosiect rheoli gorgors Conwy ar y Migneint (HB), adfer gorgors a rhostir ar gefn Hatterall yn y Mynyddoedd Du (GE), cyflwyno pori â gwartheg ac ehangu ym Mhumlumon i reoli'r rhostir (CF), llygod y dŵr ar y Migneint (DR/JM) a meryw yn Eryri (BJ). Fodd bynnag, credid bod angen gwneud mwy o waith er mwyn nodi'r prosiectau hyn ac ymgynghori'n ehangach.

CAM GWEITHREDU:- Bydd aelodau'r grŵp yn paratoi crynodeb byr (<500 gair) ar gyfer pob prosiect/mater, ynghyd â map (yn Mapinfo) ac yn **anfon y rhain at Barbara Jones cyn diwedd mis Gorffennaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf i edrych ar gynnydd ar 8 Rhagfyr yn swyddfeydd CCGC yn y Drenewydd.
